

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 14eg o Fehefin 2011.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Iwan Lloyd Williams (Cadair), Dyfed Edwards (Cyngor Sir), Ifan Glyn Jones, Elwyn Jones-Griffith, Barry Bracegirdle, Menna Williams (Penygroes); Harry Wyn Owen, D Martin Williams, Dafydd Glyn Owen (Talysarn); Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts (Llanllyfni); T Les Jones (Nantlle); Eurig Evans (Nebo)

Gwr Gwadd: Dafydd Roberts, Cartrefi Cymunedol parthed Cystadleuaeth Arddio. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd mai prif nod y gystadleuaeth yw i dynnu gerddi tenantiaid i fyny i safon, ac i drïo cael mwy o bobl i gystadlu. Penderfynwyd cydweithio gyda Dafydd (Cartrefi Cymunedol) a chael gwobr i'r ardd â gwellhad gorau ym mhob pentref, ynghyd â gwobr 1af, 2il, 3ydd, 4ydd a 5ed ar gyfer y Dyffryn cyfan. Penderfynwyd cael gwobrau ar gyfer y gerddi preifat gorau yn y Dyffryn eleni, yn hytrach na gwobrau ar gyfer pob pentref unigol.

Fe'n hysbyswyd gan Gyngor Gwynedd fod gwaith wedi ei raglennu ar gyfer rhai ffyrdd yn y Dyffryn yn ystod y dyfodol agos.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- Uned 5, Barics, Ty Mawr, Nantlle – newid defnydd gweithdy i fod yn uned wyliau. Cymeradwyo.
- Hen Orsaf Heddlu, Penygroes – newid defnydd i dy. Cymeradwyo.
- Stad Ddiwydiannol, Penygroes – estyniad ochr a newidiadau allanol i adeilad presennol. Cymeradwyo.

Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd ymatebion gan Gyngor Gwynedd i gwynion gan y Cyngor Cymuned – palmant Trem y Wyddfa – wedi ei thrwsio; tipio slei bach Tyddyn Agnes – wedi ei glirio; pont Llwybr 104 – ysgrifennu yn ol at Gyngor Gwynedd i ofyn ble fydd lleoliad y pontydd.; gwasanaeth bws Llanllyfni i Borthmadog – darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd ac eboost OP Huws.

Partneriaeth Economaidd Gwynedd – Cynllun Datblygu Cymru Wledig. Ifan a Dafydd am holi am fwy o wybodaeth.

Adroddiadau Pentrefi.

Penygroes : Goleuadau Nadolig – penderfynwyd holi'r contractiwr am gyflwr y goleuadau . Byddwn yn gofyn wrth Gyngor Gwynedd am g gyfarfod safle ger Wynnstay – darn pellaf o dan y coed yn fler;

Byddwn yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i w hysbysu bod y tryc ar y gylchfan ger Poveys angen blodau, a gwneud cais hefyd am wlau blodau ar y gylchfan yn Inigo Jones a'r gylchfan arall i Benygroes ar y ffordd osgoi.

Talysarn: Eithin angen eu torri Gloddfa Glai, a'r trigolion yn bryderus am dân;

Derbyniwyd sylw bod pobl yn gwrthod cerddad ar y Trim Track gan bod cymaint o gwn yno, a chwn yn rhydd yng nghefn y byngalos yn Gloddfa Glai; Cafwyd cwynion hefyd am tipio slei bach.